# LLAWLYFR MYFYRIWR 2020/21

Coleg Penybont
Bridgend College

# CROESO

Diolch am ddewis astudio gyda Choleg Penybont. Mae'r Llawlyfr Myfyriwr hwn yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol y bydd ei hangen arnat wrth i ti ddechrau ar dy astudiaethau. Bydd hefyd yn ddefnyddiol trwy gydol y flwyddyn, felly cadw dy gopi yn ddiogel.

Mae'r ffordd yr ydym yn gweithredu fel Coleg ar hyn o bryd wedi newid oherwydd pandemig COVID-19. Felly, gall rhai o'r gwasanaethau neu'r mentrau a gynhwysir yn y llawlyfr hwn gael eu heffeithio dros dro. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan a phorth y myfyrwyr. Rydym yn dy annog i wirio dy e-byst yn rheolaidd am ddiweddariadau, ac i gymryd arweiniad gan dy Diwtor Personol a dy staff addysgu.

Os oes gennyt unrhyw gwestiynau, cysyllta â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt gyferbyn.

Rydym yn dymuno'r gorau i ti wrth i ti gychwyn ar dy daith yng Ngholeg Penybont.



# CYNNWYS


5 EIN CYMUNED DDYSGU
6 BYWYD MYFYRIWR
10 DY LAIS
12 SGILIAU CRAIDD
14 CEFNOGAETH I TI
18 DIGIDOL
20 CYMRAEG
22 MENTER
24 BRECWAST AM DDIM
25 GORSAFOEDD HYDRADIAD
26 CYFLEUSTERAU
27 CERDYN TOTUM
28 URDDAS MISLIF
30 CYMORTH ARIANNOL
33 ADRODD ABSENOLDEB
34 LLYWODRAETHWYR
35 DYDDIADAU PWYSIG


# DY FANYLION

## Cysyllta â ni

Mae'n bwysig bod gennym dy fanylion cyswllt cywir fel y gallwn cysylltu â ti os bydd argyfwng.

Os wyt ti'n symud tŷ, yn newid dy rif ffôn neu dy gyfeiriad e-bost, gad i ni wybod trwy alw heibio Gwasanaethau Myfyrwyr.
**Dydd Llun - Dydd Iau 8:30yb - 5:00yp**
**Dydd Gwener 8:30yb - 4:30yp**

Os oes gennyt unrhyw gwestiynau, ffonia **01656 302 302** neu e-bostia:
**hello@bridgend.ac.uk**

## Sut i fewngofnodi i dy gyfrif TG myfyriwr

I fewngofnodi i dy gyfrif myfyriwr, defnyddia'r canlynol fel dy gyfrinair.

Tair llythyren gyntaf dy gyfenw gyda llythyren gyntaf mewn priflythyren, ac yna fersiwn chwe digid o dy ddyddiad geni (DDMMBB)

Enghraifft:
Cyfenw Smith DG 13/05/02
Dy gyfrinair yw:

Smi130502



# EIN CYMUNED DDYSGU

Rydym am i ti deimlo'n ddiogel ac yn rhan o'n cymuned yng Ngholeg Penybont.

Mae Cod Dinasyddiaeth ein myfyrwyr yn nodi ein hymrwymiad i ti a beth ydyn ni'n disgwyl oddi wrthyt yn gyfnewid.

**Disgwyliwn i bob myfyriwr gyflawni ein gwerthoedd dysgu:**

## Byddwch yn Barod
## Byddwch yn Barchus
## Byddwch yn Ddiogel

Cymer amser i ddarllen ein Cod Dinasyddiaeth; mae'n cynnwys arweiniad pwysig ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a TG, a'n disgwyliadau ymddygiad.

Mae'n bwysig dy fod yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle dysgu yn ystod dy amser yng Ngholeg Penybont fel y gelli di gyflawni a symud ymlaen. Rydym yn disgwyl i dy bresenoldeb fod yn 95% neu'n uwch.

# BYWYD MYFYRIWR

## Cyfoethogi

Mae gweithgareddau cyfoethogi yn rhoi cyfle i ti ddysgu sgiliau newydd ac ennill profiadau enhangach tra'n astudio yn y Coleg. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol ac elusennau a all dy helpu i fod yn bopeth y gallet fod.

## Clybiau a chymdeithasau

Rydym yn annog ac yn cefnogi myfyrwyr i sefydlu a rhedeg eu clybiau a'u cymdeithasau eu hunain i gefnogi diddordebau pobl eraill ar draws y Coleg. Mae'r rhain yn darparu ffyrdd newydd o gwrdd â phobl newydd a rhannu diddordebau cyffredin.

## Seremoni gwobrau blynyddol

Pob blwyddyn rydym yn dathlu llwyddiant a chyflawniad ein myfyrwyr. Mae unigolion sy'n cyflawni'n uchel ac sy'n ysbrydoledig yn cael eu cydnabod am eu hymrwymiad a'u llwyddiant.

## WorldSkills UK

Fel myfyriwr yng Ngholeg Penybont, byddwn yn dy annog i ddatblygu a rhagori yn dy astudiaethau galwedigaethol a byddwn yn rhoi cyfle iti gystadlu mewn cystadlaethau sgiliau rhanbarthol a chenedlaethol.





## Profiad myfyriwr

Mae gennym dîm o Arweinwyr Ymgysylltu â Myfyrwyr ymroddedig sydd yma i helpu i roi'r profiad gorau i ti yng Ngholeg Penybont.

Dilyna ein tîm Profiad Myfyriwr ar gyfryngau cymdeithasol:

/BClearnerexperience
@BClearnerexp
@learnerexperience

## Podlediadau Coleg Penybont

Tiwnia i mewn i'n podlediad i ddarganfod mwy am fywyd yng Ngholeg Penybont.

Mae ein podlediadau yn ymdrin ag ystod o bynciau, o les digidol i wasanaethau myfyrwyr, felly edrycha amdanom ar y llwyfannau isod - chwilia Coleg Penybont!

Listen on Anchor | Listen on Spotify | Listen on Apple Podcasts

# BYWYD MYFYRIWR

## Cyfleoedd

Cyfleoedd yw hwb gyrfaoedd y Coleg, sy'n weithle arloesol a chydweithredol sy'n galluogi myfyrwyr a chyflogwyr i gysylltu. Rydym yn gweithio gyda myfyrwyr a chyflogwyr i wella addysg gyrfaoedd, hyrwyddo cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwaith a galluogi pib linellau talent i fusnes.

Mae Cyfleoedd yn adeiladu ar ddatganiad cenhadaeth ehangach y Coleg, gan alluogi i'n myfyrwyr i **'fod yn bopeth y gallant fod'** trwy eu paratoi a'u cefnogi i gyflawni, datblygu a chael cyfleoedd gyrfaol ystyrlon.

Gall ein tîm Gyrfaoedd dy gefnogi gyda:

- Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd
- Chwilio am gyfleoedd cyflogedig a gwirfoddol
- Opsiynau neu gymwysiadau Prifysgol a chyflogaeth
- Mentora cyflogwr
- Ffug gyfweliadau
- Adeiladu dy CV
- Lleoliadau gwaith

Am fwy o wybodaeth, cer i: **cyfleoedd.co.uk**



# DY LAIS

## Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

Detholir myfyrwyr StAR gan eu cyfoedion i'w cynrychioli ar eu cwrs. Mae StARs yn helpu i sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed ac yn rhoi adborth i unrhyw farn a materion sy'n ymwneud â'r cwrs a'r Coleg yn gyffredinol.

**Manteision o ddod yn StAR:**

- Gall myfyrwyr ennill sgiliau newydd trwy eu rôl fel cyfathrebu, datrys problemau, trafodiaethau ac arweinyddiaeth.
- Cydnabyddiaeth - rhoddir cyfle i fyfyrwyr dderbyn tystysgrif gydnabyddiaeth a gall y rôl wella eu CV.

## Llysgenhadon

Mae dod yn Llysgennad Coleg Penybont yn ffordd wych o gymryd rhan ym mywyd y Coleg a rhoi rhywbeth yn ôl. Fe gei di gyfleoedd gwych i gefnogi digwyddiadau ar draws y Coleg, gan gynnwys ein Nosweithiau Agored, Ffair y Glas, noson wobrwyo a digwyddiadau codi arian.

**Mae ceisiadau am y ddwy rôl yn agor bob mis Medi.**



## 'Eich Llais'

Mae 'Eich Llais' yn ein helpu ni i wella.

Os oes gennyt syniad, canmoliaeth neu os wyt ti'n credu fod rhywbeth y gallem ei wella, gad i ni wybod!

Gellir anfon e-bost atom ar:
**yourvoice@bridgend.ac.uk**
neu trwy ymweld â:
**bridgend.ac.uk/your-voice**



# SGILIAU CRAIDD

Yng Ngholeg Penybont, rydym wedi adnabod 8 Sgil Craidd - byddet yn eu defnyddio wrth ddysgu, mewn cyflogaeth yn ogystal ag yn ehangach fel rhan o dy fywyd o ddydd i ddydd.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r sgiliau craidd hyn i sicrhau dy fod yn barod ar gyfer dy gamau nesaf. Gall hyn fod mewn prifysgol, gwaith, prentisiaeth, sefydlu busnes dy hun neu symud ymlaen i gwrs lefel uwch yn y coleg.

**Llythrennedd / Literacy**

**Llythrennedd** yw'r gallu i ddarllen, ysgrifennu, siarad a gwrando mewn ffordd sy'n caniatáu inni gyfathrebu'n effeithiol ac yn ein helpu i wneud synnwyr o'r byd.

**Rhifedd / Numeracy**

**Rhifedd** yw'r gallu i ddefnyddio rhifau a datrys problemau. Mae'n cynnwys bod â'r hyder a'r sgil i ddefnyddio rhifau a mathemateg ym mhob agwedd ar fywyd.

**Llythrennedd Digidol / Digital Literacy**

Mae **Llythrennedd Digidol** yn ymwneud â gwybodaeth, sgil, agweddau ac ymddygiadau wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol. Mae llythrennedd digidol yn cynnwys dysgu sut i ddod o hyd i, didoli, gwerthuso, rheoli a chreu gwybodaeth mewn ffurfiau digidol.



**Y Gymraeg a Dwy-ieithrwydd / Welsh & Bilingualism**

Mae **Cymraeg a Dwy-ieithrwydd** yn ymwneud â defnyddio, cymhwyso a datblygu dy sgiliau dwyieithog trwy beidio byth â cholli cyfle i gyfathrebu'n glir yn Gymraeg neu Saesneg ar y lefel yr wyt yn teimlo'n fwyaf hyderus arni - gallai hyn fod yn y coleg, y gweithle, ar leoliad neu'n gymdeithasol.

**Cynllunio a Threfniant / Planning & Organisation**

**Cynllunio** yw'r broses o benderfynu, yn fanwl, sut i wneud rhywbeth cyn i ti ddechrau ei wneud. Mae **Trefnu** yn broses o strwythuro a chydlynu nodau a gweithgareddau tasg er mwyn cyflawni amcanion.

**Meddwl Beirniadol a Datrys Problem / Critical Thinking & Problem Solving**

**Meddwl yn Feirniadol** yw meddwl rhesymol, myfyriol sy'n canolbwyntio ar benderfynu beth i'w gredu neu ei wneud.
**Datrys Problemau** yw'r broses o weithio trwy fanylion problem i ddod o hyd i ateb.

**Creadigrwydd ac Arloesedd / Creativity & Innovation**

**Creadigrwydd** yw'r gallu neu'r weithred o greu rhywbeth gwreiddiol neu anghyffredin.
**Arloesedd** yw gwneud newidiadau neu gyflwyno rhywbeth newydd.

**Effeithlonrwydd Personol / Personal Effectiveness**

Mae **Effeithlonrwydd Personol** yn golygu defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael, fel dy gryfderau, sgiliau, egni ac amser, i dy alluogi i gyflawni nodau personol neu gysylltiedig â gwaith. Mae hyn yn cynnwys arddangos arweinyddiaeth gref a rhagolwg cadarnhaol, a gall gynnwys gweithio'n annibynnol ac o fewn tîm.

# CEFNOGAETH I TI

## Canolfannau Llwyddiant

Mae Canolfannau Llwyddiant y Coleg yn darparu amgylchedd croesawgar i fyfyrwyr ar gyfer dysgu. Mae yna lyfrau a chylchgronau, DVDau ac ystod o adnoddau electronig i helpu gyda dy astudiaethau ac aseiniadau.

Mae yna gyfleusterau cyfrifiadurol ac ardaloedd astudio hefyd, ynghyd â staff cyfeillgar a gwybodus sydd yn gallu dy helpu i ddod o hyd i adnoddau, argraffu, llungopïo, rhwymo a phrawfddarllen aseiniadau.

Os oes angen cymorth arnat tu hwnt i sesiynau dy amserlen, mae ein Hyfforddwyr Sgiliau yn gweithio i dy gefnogi i ddatblygu dy sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhellach, adolygu a pharatoi ar gyfer arholiadau, cyfeirio ac ysgrifennu aseiniadau a chymorth dwyieithog.

Gellir ebostio'r Tîm Canolfan Llwyddiant ar: **bsc@bridgend.ac.uk** neu chwilia amdanynt ar Twitter ac Instagram:

@successcentres
@successcentresbc

Gall myfyrwyr hefyd gael mynediad i MyCirqa, ein Ap Llyfrgell am ddim






Canolfan Llwyddiant, Campws Heol y Bont-faen

# CEFNOGAETH I TI

## Tiwtor Personol

Rhoddir Tiwtor Personol i ti a fydd yn rhan o dîm academaidd dy gwrs. Bydd dy Diwtor Personol yn cwrdd â thi i wirio cynnydd, gosod targedau personol ac academaidd a dy helpu i gyflawni dy nodau.

## Gofal plant

Meithrinfa Ddydd
Coleg Penybont Bridgend College
Day Nursery

Mae gennym feithrinfa ddydd mawr ar gampws Heol y Bont-faen. Os oes gennyt blentyn rhwng 6 wythnos a 5 mlwydd oed, gallet wneud cais am le yn y feithrinfa. Efallai y byddwn yn gallu cefnogi gyda chost gofal plant. Siarada ag aelod o'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr am ragor o wybodaeth neu cer i: **bridgendcollegedaynursery.co.uk**

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Os oes gennyt ti angen dysgu ychwanegol (ADY), mae'n bwysig dy fod yn rhoi gwybod i ni fel ein bod yn gwybod sut i dy gefnogi orau yn ystod dy amser yn y Coleg. Os nad wyt eisoes wedi dweud wrthym am angen dysgu ychwanegol ar dy gais neu yn y cyfweliad, cysyllta â'r Tîm ADY fel y gallwn sicrhau ein bod yn rhoi'r gefnogaeth gywir i ti:

**01656 302 302 est 335** | **aln@bridgend.ac.uk**
neu cer i: **bridgend.ac.uk/aln**

## Gofalwyr ifanc

Gwyddom fod gofalu am aelodau eraill o'r teulu yn ymrwymiad enfawr. Mae gennym rai cyfleoedd gwych i fyfyrwyr sydd mewn gofal, yn gadael gofal neu'n gofalu am rywun arall. Paid â bod ofn siarad â ni neu ofyn am help. Cysyllta â: **lles@bridgend.ac.uk**



## Cludiant

Darperir tocynnau bws i bob myfyriwr rhwng 16 a 18 oed sy'n byw 3 milltir o'u campws astudio.

Darperir tocynnau gan y Coleg ar ran yr Awdurdodau Lleol canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Bydd angen i ymgeiswyr o ardaloedd awdurdodau lleol eraill gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr am gyngor penodol.

Efallai bydd myfyrwyr 19+ oed yn gymwys i gael naill ai tocyn bws ar un o'n llwybrau cytundeb neu wneud cais ar gyfer costau teithio (ar gyfer cludiant gyhoeddus yn unig).

## Tîm Lles

STUDENT WELLBEING · LLES MYFYRWYR

Mae ein Tîm Lles yn cynnal ystod wych o weithgareddau chwaraeon a chyfoethogi ar draws y Coleg.

Maent hefyd yn cynnal nifer o glybiau a chymdeithasau y gallet ymuno â nhw. Mae'r tîm yn darparu cefnogaeth gyda lles, cwnsela a rheoli arian.

## Diogelu

Rydym am i'n Coleg fod yn amgylchedd diogel i ddysgu a datblygu. Gallet ein helpu trwy wisgo dy gortyn gwddf a dy fathodyn adnabod y Coleg ar bob adeg, gan ddweud wrthym os wyt ti'n poeni am rywbeth neu rywun arall, a bod yn ymwybodol o ymddygiad dy hun.

Gellir adnabod aelod o Dîm Lles y Coleg wrth eu cortyn gwddf porffor. Os wyt ti neu rywun rwyt ti'n nabod mewn perygl o niwed, siarada ag aelod o staff neu e-bostia:
**lles@bridgend.ac.uk**

# DIGIDOL

Mae Den01 yn safle arloesol pwrpasol yng Ngholeg Penybont, gyda'r nod o ddarparu hyfforddiant, gweithdai a sesiynau blasu ar bopeth technoleg. Mae hyn yn cynnwys Clwb Technoleg, Clwb Hapchwarae, sesiynau galw heibio Google a chyfleoedd Hyrwyddwr Digidol Myfyrwyr, gan ddefnyddio offer o'r radd flaenaf fel offer pen rhithwir, argraffwyr 3D, cyfrifiaduron gemau ac offer roboteg.

I gael mwy o wybodaeth am gyrsiau sydd i ddod neu i gysylltu â'r tîm yn Den01, cer i: **den01.co.uk**

### Cyfleoedd Hyrwyddwr Digidol Myfyrwyr

Fel Hyrwyddwr Digidol Myfyrwyr, cei di gyfle i ddatblygu a phrofi mentrau technolegol newydd yn y Coleg. Gallai'r rhain gynnwys **rhith-realiti, argraffu 3D, ffilmio 360°, flogio, podledu, rhaglennu, roboteg, dronau a mwy!** Cei di hefyd y cyfle i greu cynnwys digidol blaengar ar gyfer dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol a derbyn cefnogaeth tuag at gyflawni ardystiad digidol a gydnabyddir yn genedlaethol.



# AP COLEG PENYBONT

### Cysyllta!

- Bydd y cyntaf i dderbyn diweddariadau ar gyfleoedd myfyrwyr
- Cyrchu gwybodaeth lles a chymorth
- Edrych ar dy amserlen
- Gweld dy amserlenni aseiniadau a dy dargedau personol

I fewngofnodi am y tro cyntaf, defnyddia dy e-bost myfyriwr a chyfrinair!

Dadlwytho ein hap trwy chwilio 'Bridgend College' ar yr 'App Store'! Ar gael ar ddyfeisiau Android ac Apple.

Download on the App Store

GET IT ON Google Play



# CYMRAEG

Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno profiad myfyrwyr dwyieithog ac rydym yn ymdrechu i gyflawni ein dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Fel myfyriwr, mae gennyt hawl o dan y safonau hyn i gael y canlynol:

- Llythyrau yn Gymraeg
- Gwneud gais am gymorth ariannol yn Gymraeg
- Llawlyfr Myfyriwr yn Gymraeg
- Prosbectws yn Gymraeg
- Tiwtor Personol sy'n siarad Cymraeg
- Gwasanaeth cwnsela yn Gymraeg
- Cyfarfodydd yn Gymraeg
- Tystysgrifau yn Gymraeg
- Cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg (bydd hyn yn dibynnu ar y corff arholi)
- Ffurflenni Cymraeg

Mae gennym ystod o weithgareddau yn y Gymraeg sy'n rhedeg trwy gydol y flwyddyn, felly cadwa olwg ar ein porth myfyrwyr a'r sgriniau electronig o gwmpas ein campysau.





# MENTER

## Cefnogaeth ar gael ar gyfer dechrau busnes dy hun

Os hoffet ti weithio i dy hun, naill ai nawr neu rywbryd yn y dyfodol, mae yna ystod eang o gefnogaeth ar gael.

P'un ai hoffet ti fod yn gweithio ar liwt dy hun, cychwyn busnes dy hun, dod yn hunan gyflogedig neu cael syniad am gynnyrch neu wasanaeth yr hoffet ti ei archwilio ymhellach, mae help wrth law. Mae rhai o'r gwasanaethau y gallet eu cyrchu'n hollol rhad ac am ddim, ac yn cynnwys:

- Cyfarfodydd un wrth un anffurfiol/rhithwir (trwy Google Meet) i gael cyngor ac arweiniad gyda Ruth Rowe, Swyddog Entrepreneuriaeth Coleg Penybont
- Cyngor busnes a mentora gan Syniadau Mawr Cymru neu Fusnes Cymru
- Gweithdai a seminarau mewn amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys campysau Coleg Penybont
- Gweithdai ar-lein
- 'Bootcamp' busnes

I ddarganfod mwy neu i wneud apwyntiad, ffonia neu e-bostia Ruth ar:
**01656 302 302 est 237** | **rrowe@bridgend.ac.uk**
neu cysyllta â hi trwy wefan Cyfleoedd:
**cyfleoedd.co.uk**

BYDD YN FOS AR DY HUN



## Astudiaeth achos

## Daniel Ralph - Blue Bench Media

Astudiodd Daniel y Cyfryngau Creadigol yng Ngholeg Penybont a bachodd ar bob cyfle i ddatblygu ei sgiliau entrepreneuraidd ochr yn ochr â'i astudiaethau. Nid yn unig oedd Daniel yn Hyrwyddwr Digidol Myfyrwyr, manteisiodd hefyd ar lawer o gynigion i weithio gyda busnesau lleol a helpodd i adeiladu portffolio cryf.

Profodd yr holl brofiad hwn yn amhrisiadwy pan sefydlodd Daniel 'Blue Bench Media' wrth ddal i fod yn ddysgwr Lefel 3. Yn arbenigo mewn creu cynnwys fideo ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, mae'r busnes wedi mynd o nerth i nerth ac mae Daniel yn parhau i'w rhedeg ochr yn ochr ag astudio ar gyfer gradd mewn Ffilm a Theledu yn UWTSD a ddechreuodd yn 2019.

Mae angerdd ac ymrwymiad Daniel tuag at ei astudiaethau a'i fusnes wedi arwain at nifer o acolâdau. Cyrhaeddodd rownd derfynol y Gwobrau Addysg Prydeinig eleni ac enillodd wobr Myfyriwr Busnes y Flwyddyn Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr a gwobr Entrepreneur Ifanc Bridge FM.






# BRECWAST AM DDIM

### Brecwast am ddim ar gyfer pob myfyriwr

O fis **Medi 2019,** mae pob myfyriwr sy'n astudio yng Ngholeg Penybont wedi gallu derbyn brecwast am ddim.

Edrycha am ein gorsafoedd brecwast yn ffreuturau Penybont, Pencoed a Heol y Frenhines.

### Ffrwythau am ddim pob dydd Mercher

Pob dydd Mercher yn nerbynfeydd campws Penybont a Phencoed, gallet helpu dy hun i ffrwythau am ddim.





Mae mor syml â hynny - os wyt ti'n fyfyriwr yn y Coleg, cei di frecwast am ddim!

# GORSAFOEDD HYDRADIAD

Gyda'ch potel ddŵr Coleg Penybont am ddim, gallet gael dŵr o lawer o'n gorsafoedd hydradiad ar draws ein campysau.

Rydym wedi ymrwymo i leihau'r defnydd o blastig un defnydd ar draws ein holl gampysau. Helpa ni i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy trwy ddefnyddio dy fotel ddŵr am ddim pryd bynnag y bo modd.

GORSAF HYDRADIAD

HYDRATION STATION

**Paid ag anghofio** i ddod a dy fotel ddŵr i'r Coleg gyda thi!

YCHWANEGA FFRWYTHAU FFRES I DY DDŴR I ROI MWY O FLAS IDDO

MAE YFED DŴR YN HELPU I GADW'R CROEN YN GLIR

CADW GOLWG AR DY HYDRADIAD

MAE ANGEN HYDRADIAD AR BERFFORMIAD RHAGOROL

MAE NEWYN YN ARWYDD CYFFREDIN O DDADHYDRADIAD

MAE BWYDYDD HALLT FEL CREISION A PRETZELS YN DY WNEUD YN SYCHEDIG

# CYFLEUSTERAU

- Mae yna amrywiaeth o brydau poeth a bargeinion byrbrydau poeth ac oer ar gael ym mhob un o'n campysau. Rydym hefyd yn gweini diodydd poeth ac oer, ffrwyth a danteithion melys.
- Fe alla di dalu gyda cherdyn yn ein holl allfeydd, heb unrhyw wariant isafswm ei angen.
- Mae mynediad Di-Wifr am ddim i ddysgwyr ar draws ein holl gampysau.
- Ni chaniateir ysmygu neu anweddu o gwmpas unrhyw un o'n campysau - fodd bynnag, mae mannau ysmygu dynodedig ar gael ar bob campws.







# CERDYN TOTUM

TOTUM

**Pwy sydd ddim yn hoffi bargen? Cofrestra am gerdyn TOTUM a derbynia dros 200 o ostyngiadau gwych am £14.99 y flwyddyn, gan gynnwys:**

- 10% oddi ar Co-op
- 15% oddi ar lookfantastic
- 20% oddi ar Virgin Experience Days
- 25% oddi ar docynnau Odeon (Llun - Iau yn unig)
- 30% oddi ar Pizza Express
- I fyny at 40% oddi ar Garmin
- Treial am ddim 6 mis Amazon Prime Student

Cofrestra ar-lein ar **totum.com** neu yng Ngwasanaethau Myfyrwyr.

PIZZA EXPRESS

GARMIN

co op   lookfantastic   Virgin EXPERIENCE DAYS   ODEON FANATICAL ABOUT FILM   amazon

# URDDAS MISLIF

Mae Coleg Penybont yn gweithio gyda'r elusen Wings Cymru i gefnogi'r rhai sydd angen darpariaeth mislif am ddim.

Gellir darganfod ble mae'r gorsafoedd darpariaeth mislif a sut i gael gafael arnynt ar borth y myfyrwyr.

Os oes angen cynhyrchion mislif am ddim arnat, mae gennym staff a myfyrwyr sy'n 'Llysgenhadon Wings'. Cadwa lygad am rywun sy'n gwisgo bathodyn Wings.






Ar ddechrau 2020, lansiwyd menter gynaliadwy newydd sbon gennym i fynd i'r afael â thlodi mislif yn y gymuned.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Silly Panda a Wings Cymru, mae'r cynllun yn ddull eco-gyfeillgar, arloesol i hyrwyddo urddas mislifoedd trwy roi mynediad i fyfyrwyr yn y Coleg i atebion cynaliadwy i gynhyrchion mislif a thorri'r stigma o'u hamgylch.

Mae Coleg Penybont yn falch i fod y coleg cyntaf yng Nghymru i ddarparu pecynnau ecogyfeillgar AM DDIM i fyfyrwyr.

Am ragor o wybodaeth, cysyllta â'r Tîm Lles Myfyrwyr: **lles@bridgend.ac.uk**

# CYMORTH ARIANNOL

Yn ystod dy amser yng Ngholeg Penybont, efallai y byddi di'n gymwys i dderbyn cymorth ariannol i helpu gyda chostau astudio. Bydd mynediad ar gyfer cymorth ariannol yn dibynnu ar incwm dy gartref ynghyd â rhai ffactorau eraill.

## Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Taliad wythnosol yw LCA i gefnogi plant 16-18 oed gyda chostau astudio. Gwneir taliadau'n uniongyrchol i dy gyfrif banc bob pythefnos os wyt ti wedi bodloni'r gofynion presenoldeb.

Ni fydd LCA yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill yr wyt ti neu dy deulu eisoes yn derbyn.

Gallet wneud cais am LCA os yw bob un o'r canlynol yn berthnasol i ti:

- Rwyt ti fel arfer yn byw yng Nghymru
- Rwyt ti rhwng 16 a 18 oed
- Rwyt ti'n astudio yn y Coleg am o leiaf 12 awr yr wythnos ac mae dy gwrs wedi'i gymeradwyo gan yr Adran Addysg a Sgiliau
- Rwyt ti'n bodloni'r gofynion cenedligrwydd a phreswyliaeth
- Rwyt ti'n byw mewn cartref gydag incwm o naill ai £20,817 neu lai NEU £23,077 neu lai ac mae mwy nag un person ifanc sy'n gymwys i gael Budd-dal Plant yn y cartref.

Am ragor o wybodaeth neu i wneud cais cer i: **StudentFinanceWales.co.uk/EMA**



## Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLC)

Os wyt ti'n 19 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn astudio ar gwrs llawn amser, gallet dderbyn hyd at £1,500 neu hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan-amser, yn dibynnu ar incwm dy gartref.

Gallet wneud cais am GDLC os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol i ti:

- Rwyt ti'n 19 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd (1af o Fedi)
- Rwyt ti'n bodloni'r gofynion cenedligrwydd a phreswyliaeth
- Rwyt ti'n byw yng Nghymru
- Rwyt ti'n byw mewn cartref gydag incwm o £18,370 neu lai
- Rwyt ti'n astudio a/neu'n symud ymlaen ar gwrs addysg bellach cymwys
- Rwyt ti'n astudio ar gwrs sy'n fwy na 275 awr o ddysgu ar draws y flwyddyn academaidd

**DALIER SYLW:** Mae unrhyw un o'r meini prawf a amlinellir yn yr adran cymorth ariannol yn amodol i newid. Am ragor o wybodaeth ar LCA a GDLC neu i lawr lwytho cais, cer i: **StudentFinanceWales.co.uk/FE**

Mae pecynnau cais hefyd ar gael i'w casglu gan Wasanaethau Myfyrwyr o fis Ebrill ar gyfer y flwyddyn astudio academaidd dilynol.

### Cronfa Ariannol wrth Gefn (CAG)

Mae'r GAG yn agored i fyfyrwyr llawn-amser ac yn gronfa gyfyngedig. Gall CAG gefnogi myfyrwyr gydag ychydig o gostau gofal plant, cinio, offer ar gyfer cwrs, costau teithio neu wiriad DBS. Mae bod yn gymwys i'r CAG yn dibynnu ar incwm dy gartref.

Am fwy o wybodaeth neu i wneud cais am CAG, cer i: **bridgend.ac.uk/newstudents**

Noder, mae'r holl wybodaeth a'r cymhwysedd yn gywir ar adeg argraffu, ond gellir ei newid.





# ADRODD ABSENOLDEB

Rydym yn disgwyl i'n holl fyfyrwyr i gynnal bresenoldeb o leiaf 95%, ond rydym yn deall bod yna adegau pan fo pawb yn sâl.

Mae'n bwysig i ti adel ni wybod os dy fod di'n sâl neu'n methu dod i'r Coleg.

Cysyllta â ni i adael wybod cyn dechrau diwrnod y coleg, dy enw, rhif adnabod myfyriwr, rheswm dros absenoldeb a phryd rwyt ti'n disgwyl bod yn ôl yn y coleg.

- **bridgend.ac.uk/absence**
- **absence@bridgend.ac.uk**
- **01656 302 302**

Bydd presenoldeb yn effeithio ar daliadau unrhyw gymorth ariannol y bydda di'n derbyn gan y Coleg (LCA, GDLC, CAG).



# LLYWODRAETHWYR

## Bwrdd Llywodraethol Coleg Penybont

Wedi'i goroni gyda'r Wobr Disglair ar gyfer Arweinyddiaeth a Llywodraethu gan Gymdeithas y Colegau (AoC) yn ddiweddar, mae'r Corff Llywodraethol yn cymryd ei rôl o ddifrif yng Ngholeg Penybont. Ei prif rôl yw i ganolbwyntio ar bwrpas eang a chyfeiriad strategol y Coleg, natur y rhaglen addysgol, yr ethos cyffredinol, y polisi derbyn a'r berthynas â'r gymuned.

I ddarganfod mwy, cer i: **bridgend.ac.uk/the-corporation**

## Llywodraethwyr Myfyrwyr

Mae'r Coleg yn penodi Llywodraethwyr Myfyrwyr sy'n llais i fyfyrwyr. Maent yn cymryd rhan weithredol o fewn nifer o gyfarfodydd trwy gydol y flwyddyn ac yn darparu persbectif gwahanol i lawer o'r Llywodraethwyr eraill. Mae'n bwysig i'n myfyrwyr gael y gynrychiolaeth ffurfiol hon gan fod nifer o benderfyniadau a wneir yn y Coleg yn cael effaith uniongyrchol arnynt.

I gael gwybodaeth am ddod yn Llywodraethwr Myfyrwyr neu i wneud cais, cer i: **bridgend.ac.uk/governor** neu e-bostia: **lles@bridgend.ac.uk**



# DYDDIADAU TYMOR

| | |
|---|---|
| Sefydlu | Dydd Mawrth 1af Medi - Dydd Gwener 11eg Medi 2020 |
| Tymor Un | Dydd Llun 14eg Medi - Dydd Gwener 23ain Hydref 2020 |
| Hanner Tymor | Dydd Llun 26ain Hydref - Dydd Gwener 30ain Hydref 2020 |
| Tymor Dau | Dydd Llun 2il Tachwedd - Dydd Gwener 18fed Rhagfyr 2020* |
| Hanner Tymor | Dydd Llun 21ain Rhagfyr - Dydd Gwener 1af Ionawr 2021 |
| Tymor Tri | Dydd Llun 4ydd Ionawr - Dydd Gwener 12fed Chwefror 2021 |
| Hanner Tymor | Dydd Llun 15fed Chwefror - Dydd Gwener 19eg Chwefror 2021 |
| Tymor Pedwar | Dydd Llun 22ain Chwefror - Dydd Gwener 26ain Mawrth 2021 |
| Hanner Tymor | Dydd Llun 29ain Mawrth - Dydd Gwener 9fed Ebrill 2021 |
| Tymor Pump | Dydd Llun 12fed Ebrill - Dydd Gwener 28ain Mai 2021 |
| Hanner Tymor | Dydd Llun 31ain Mai - Dydd Gwener 4ydd Mehefin 2021 |
| Tymor Chwech | Dydd Llun 7fed Mehefin - Dydd Gwener 25 Mehefin 2021 |

*Nodir: Mae Dydd Llun 2il Tachwedd - Dydd Gwener 6ed Tachwedd yn wythnos ddarllen. Ni ddarperir cludiant Coleg yn ystod yr amser hwn. Cyhoeddir mwy o wybodaeth am ofynion myfyrwyr unigol yr wythnos hon gan diwtoriaid cwrs.

# DIWRNODAU CAU

(Dim myfyrwyr yn y Coleg)

| |
|---|
| Dydd Iau 18fed a Dydd Gwener 19eg Mawrth 2021 |
| Dydd Llun 3ydd Mai 2021 |
| Dydd Mawrth 22ain a Dydd Mercher 23ain Mehefin 2021 |

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| Dydd Llun 2il - Dydd Gwener 6ed Tachwedd 2020 | Wythnos Ddarllen |
| Dydd Llun 16eg - Dydd Gwener 20fed Tachwedd 2020 | Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang |
| Dydd Gwener 15fed Ionawr 2021 | Dyddiad Cau UCAS |